Beth sy'n digwydd os gallwch chi gymryd camau cyfreithiol o ran y materion rydych chi'n cwyno amdanynt

Taflenni Ffeithiau

Cyflwyniad

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn esbonio sut y mae'r Ombwdsmon yn ystyried cwynion pan efallai fod gennych (neu'r unigolyn sy'n gweithredu ar eich rhan) rwymedi cyfreithiol ar gael yn y Llysoedd.

Dyma rai enghreifftiau o rwymedïau cyfreithiol a allai fod ar gael os ydych yn anfodlon â'r ffordd y mae corff cyhoeddus yng Nghymru wedi eich trin:

- hawliad yn ymwneud ag esgeuluster clinigol mewn achosion iechyd
- hawliad yn ymwneud â thorri contract os yw corff cyhoeddus wedi methu â gwneud rhywbeth y mae ef o dan rwymedigaeth gytundebol i'w wneud
- neu hawliad yn ymwneud ag iawndal os yw corff cyhoeddus (neu rywun sy'n gwneud gwaith ar ei ran) wedi achosi difrod i eiddo rhywun.

Y gyfraith sy'n berthnasol pan ymddengys bod dewis i achwynydd fynd ar drywydd rhwymedi cyfreithiol yn erbyn corff cyhoeddus

Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn dweud **na all** yr Ombwdsmon ymchwilio i gwynion o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth yn erbyn cyrff cyhoeddus os oes gennych chi (neu'r unigolyn sy'n gweithredu ar eich rhan) rwymedi cyfreithiol ar gael trwy'r Llysoedd.

Mae **eithriad** i'r rheol hon, sef os yw'r Ombwdsmon yn fodlon bod amgylchiadau eich achos yn golygu nad yw'n rhesymol disgwyl ichi gymryd, neu ddisgwyl i chi fod wedi cymryd, camau cyfreithiol. Os felly, gall yr Ombwdsmon ymchwilio i gwynion o gamweinyddu a methiant gwasanaeth am gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn y ffordd arferol.

Beth a wnawn os yw'n ymddangos o'ch cwyn bod rhwymedi cyfreithiol ar gael ichi

Er mwyn inni allu penderfynu'n deg a yw'n rhesymol ichi gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y corff cyhoeddus rydych yn cwyno amdano, efallai y bydd angen inni ofyn ichi am ragor o wybodaeth am eich

amgylchiadau, yn ychwanegol at y wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi ar eich ffurflen gwyno.

Dyma'r math o wybodaeth rydym yn debygol o ofyn ichi amdani:

- eich amgylchiadau personol a'r rhesymau pam nad ydych chi'n meddwl y gallwch chi gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y corff cyhoeddus
- y rhwymedi neu ganlyniad rydych chi'n ei geisio
- a ydych chi wedi cyfarwyddo cyfreithiwr a/neu a oes gennych yswiriant cyfreithiol neu gymorth cyfreithiol i helpu i ariannu unrhyw gamau cyfreithiol

Materion i gadw mewn cof

Gellir canfod gwybodaeth fanylach ar ba gamau y gall yr Ombwdsmon ei ofyn i gorff cyhoeddus eu cymryd i ddatrys eich cwyn yn ein taflen ffeithiau Rhwymedïau.

Os mai rhwymedi y mae'r Llysoedd yn ei ddyfarnu'n gyffredinol yw'r un rydych yn ei geisio, yna gall yr Ombwdsmon ddod i'r casgliad mai achos Llys yw'r llwybr priodol i chi ei ddilyn. Enghraifft o hyn yw iawndal ariannol sylweddol. Os ydych yn ceisio sawl rhwymedi gwahanol, er enghraifft, ymddiheuriad, atebion i'ch cwestiynau am y ffordd y cawsoch eich trin ac iawndal ariannol, bydd yr Ombwdsmon yn ystyried yn ofalus y wybodaeth a ddarparwch wrth benderfynu a yw'n briodol i ni ystyried eich cwyn.

Os dewiswch beidio â chymryd camau cyfreithiol pan ymddengys bod hwn yn ddewis a oedd ar gael ichi ar adeg y digwyddiadau rydych yn cwyno amdanynt, bydd hyn yn cael ei ystyried.

Cysylltu â ni

Os ydych chi'n ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu ystyried eich cwyn, cysylltwch â ni.

Easy Read

Unioni Pethau - Beth fydd yn digwydd os yw'n well unioni'ch cwyn trwy fynd i'r llys

Lawrlwytho

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi cyn ymateb.

Holwch@ombwdsmon.cymru

0300 790 0203 Mae ein llinell ffôn ar agor rhwng 10yb-4yp